


www.xtrapapers.com

*TGAU CYMRAEG AIL IAITH DEUNYDDIAU ENGHREIFFTIOL C.C SaW*

**1.** Chi ydy prif swyddog eich ysgol chi. Rydych chi'n cael yr e-bost yma gan swyddog ieunctid parc thema Oakwood a'r poster gwag. Darllenwch yr e-bost ac yna llenwch y poster **yn Gymraeg**. Mae'r wybodaeth i gyd yn yr e-bost. Wedyn, ysgrifennwch e-bost byr yn ôl gan ddweud os ydych chi'n gallu mynd neu beidio. Rhowch resymau.

*You are the senior prefect in your school. You receive this email and a blank poster from the youth officer at Oakwood theme park. Read the email and fill in the* poster **in Welsh.** Then, write a short e-mail back saying if you can or cannot go. Give reasons. **[8 + ✓ = 2] = [10]**

| Anfon | Cyfeiriad | Atodi | Cadw |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |

Oddi wrth: Swyddog_Ieuenctid@Oakwood.co.uk

At: Y Prif Swyddog

Pwnc: Trip Diwrnod

**Neges:**

Mae Oakwood eisiau plant ysgol i ddod ar drip diwrnod i ddathlu (celebrate) diwedd yr arholiadau ar ddydd Sadwrn Awst 26.

Mae bws yn gadael Caerdydd am naw o'r gloch yn y bore ac yn dod nôl am chwech o'r gloch yr hwyr. Mae'r bws yn costio £6 y person ond mae Oakwood am ddim!

I ginio mae bwyd cyflym, byrgyr, pitsa, a sglodion wrth gwrs! Yn y siop mae losin a siocled ar gael. I yfed dewch â photel o ddŵr.

Rhaid gwisgo jîns ac esgidiau cerdded. Cofiwch ddod â dillad sbâr, mae Hydro yn wlyb!

Mae sawl gowbr (prize) drwy'r dydd ar gyfer siarad Cymraeg a lluniau da neu ddrwg!

Ffoniwch Angharad Jones am fwy o wybodaeth ar 01833 654987.

www.xtrapapers.com



**Trip Diwrnod- Oakwood**

Dydd: ……………………[½] Dyddiad: ……………………[½] Mis: …………………… [½]

Ble: ………………………….. [½]

Bws yn gadael am: ………………….. [½] Dod nôl am: …………………… [½]

Mae'r bws yn costio £…………[½] Mae Oakwood …………[½]

I ginio mae bwyd cyflym : …………. [½] pitsa, a ………….. [½]

Yn y siop mae …………[½] a siocled.



I yfed dewch â …………. [½]

Rhaid gwisgo …………[½] ac esgidiau …………[½] Cofiwch ddod â…………. [½]

Sawl gwobr am siarad Cymraeg a lluniau da!

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch A. Jones ar ……………………………….[½]

[✓ = 2]

| Anfon | Cyfeiriad | Atodi | Cadw |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |

Oddi wrth:

At: Swyddog_Ieuenctid@Oakwood.co.uk

Pwnc: Trip Diwrnod



**Neges:**

www.xtrapapers.com

*TGAU CYMRAEG AIL IAITH DEUNYDDIAU ENGHREIFFTIOL C.C SaW*

**2.** Ysgrifennwch e-bost **yn Gymraeg** at ffrind post mewn rhan arall o Gymru. Defnyddiwch y fformat isod.

*Write an e-mail* ***in Welsh*** *to a pen pal in another part of Wales. Use the format below.* ***[15]***

| Anfon | Cyfeiriad | Atodi | Cadw |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |

Oddi wrth:

At:

Pwnc:

**Neges:**

Fi a fy nheulu (*Me and my family)* 2 ffaith *(2 facts)*

Wythnos ddiwethaf (*Last week)* 4 ffaith *(4 facts)*

Yr ysgol (*School)* 4 ffaith *(4 facts)*

www.xtrapapers.com

**3/1.** Darllenwch y ddau ddyddiadur yma a gwnewch y tasgau sy'n dilyn.

*Read these two diaries and then complete the tasks that follow.*

[16 + ✓ = 4] = **[20]**

Dyddiadur John

Dydd Gwener

Codi'n gynnar i fynd â'r ci am dro cyn brecwast. Amser cinio mynd i helpu Mr Jones Gwyddoniaeth gyda'r prosiect ailgylchu blwyddyn unarddeg- pigo caniau a photeli plastig o'r iard. Diwrnod prysur iawn heddiw ond Mathemateg i orffen- wych! Fy hoff bwnc. Mynd allan am bryd o fwyd heno gyda fy ffrindiau i ddathlu penblwydd Sally yn un deg chwech oed.

Dydd Sadwrn

Mynd i'r dref gyda Mam i brynu treinyrs newydd, wedi cael cinio yn y caffi newydd- brechdan ham a salad, iachus iawn! Noson ragorol ar y teledu heno, edrych ymlaen at weld y gêm fawr; Dinas Abertawe yn erbyn Arsenal.

Dydd Sul

Dim wedi codi tan hanner dydd, wedi gwylio dvd "Avatar" ar y teledu yn fy ystafell. Chwarae badminton yn y prynhawn- gwisgo fy nreinyrs newydd. Adolygu gwaith Hanes ar gyfer prawf yfory.

Dyddiadur Delyth

<u>Dydd Gwener</u>

Diwrnod "Plant Mewn Angen" yn yr ysgol heddiw, dim rhaid gwisgo gwisg ysgol. Ar ol yr ysgol wedi gwneud sesiwn aerobig noddedig ac wedi casglu pum deg punt- llawer o hwyl. Noson o flaen y teledu heno yn gwylio'r rhaglen Plant Mewn Angen tan hwyr.

<u>Dydd Sadwrn</u>

Mam a fi mynd i nofio yn y bore- nofio hanner milltir eisiau colli pwysau cyn parti "prom" blwyddyn un ar ddeg. Ymlacio a gwylio rhaglenni comedi trwy'r prynhawn. Heno chwarae gemau ar y cyfrifiadur.

<u>Dydd Sul</u>

Dad a fi yn mynd i ymweld a Mamgu yn yr ysbyty. Wedyn mynd adre i gael cinio rhost- cig eidion a llawer o lysiau- Mam yn dweud ei fod yn dda i fi. Gwneud gwaith cartref Ffrangeg , ysgrifennu am wyliau wedi ffonio fy ffrind Rhian am help.

www.xtrapapers.com

Ysgrifennwch yn Gymraeg y pethau mae John a Delyth yn wneud gyda'r canlynol:

*Write in Welsh the things that John and Delyth do with the following:* [16]

John

| Cadw'n iach a heini | Teulu a ffrindiau |
|---|---|
| 1.___<br>2.___ | 1.___<br>2.___ |
| **Profiad ysgol** | **Teledu** |
| 1.___<br>2.___ | 1.___<br>2.___ |
| | |

Delyth

| Cadw'n iach a heini | Teulu a ffrindiau |
|---|---|
| 1.___<br>2.___ | 1.___<br>2.___ |
| **Profiad ysgol** | **Teledu** |
| 1.___<br>2.___ | 1.___<br>2.___ |

Ysgrifennwch ddwy frawddeg yn Gymraeg, yn dweud beth rydych chi'n wneud sy'n debyg neu'n wahanol i John a/neu Delyth.

*Write two sentences in Welsh, saying what you do which is similar or different to John and/or Delyth.* [✓ = 4]

Gallwch ddechrau brawddegau- Fel John... Yn wahanol i Delyth
*You can start your sentences – Like John.... Different to Delyth*

1. ______________________________
______________________________
______________________________

2. ______________________________
______________________________
______________________________

www.xtrapapers.com

**4/2.** Ysgrifennwch eich syniadau chi am y topigau yma.
*Write your viewpoint on the following topics.* **[20]**

- Amser hamdden *(Leisure Time)*
- Teulu a ffrindiau *(Family and friends)*
- Dydd Sadwrn diwethaf *(Last Saturday)*

www.xtrapapers.com

**3.** Darllenwch yr erthygl ganlynol am y dyfarnwr rygbi enwog Nigel Owens ac yna gwnewch y tasgau sy'n dilyn.
Read the following article about the famous rugby referee Nigel Owens and then complete the tasks that follow. [16 + ✓ = 4] = [20]

Ces i fy ngeni a'm magu ym Mynyddcerrig yng Nghwm Gwendraeth yng Ngorllewin Cymru. Ar y dechrau roedd tad-cu a mam-gu yn byw ar y fferm fach gyda fi, mam a dad. Unig blentyn ydw i ac roeddwn i wrth fy modd yn byw ar fferm ac edrych ar ôl y gwartheg a'r ceffylau. Pan oeddwn yn bump oed symudon ni i'r pentref ac mae dad yn dal i fyw yno heddiw.

Ar y dechrau es i i ysgol Uwchradd y Gwendraeth fel fy ffrindiau ond doeddwn i ddim yn hapus yno achos roeddwn i'n cael fy mwlio gan ddisgybl yn yr un flwyddyn â fi. Wedyn symudais i i Ysgol Maes Yr Yrfa ac roeddwn i'n hapus iawn yno. Yn yr ysgol roeddwn i'n hoffi chwaraeon ond doeddwn i ddim yn dda iawn ac ar ôl colli gêm bwysig trwy fethu cicio gôl ar ddiwedd y gêm dwedodd yr athro chwaraeon wrtha i "Nigel cer i ddyfarnu - does dim dyfodol i ti yn chwarae rygbi!" A dyna beth wnes i. Dechreuais ddyfarnu gemau ysgolion ac wedyn gemau'r ardal a gemau dosbarth 1. Erbyn heddiw dw i wedi bod yn ddigon lwcus i ddyfarnu gemau rhyngwladol. Uchafbwynt fy ngyrfa oedd dyfarnu yng nghwpan y byd.

Mae llawer o bethau da am fod yn enwog a rhai pethau drwg. Rydw i wedi mwynhau ymddangos ar y teledu yn Pobol Y Cwm fel fi fy hun! Hefyd rydw i wedi gallu helpu pobl eraill am fy mod yn gallu perswadio pobl enwog i godi arian at achosion da. Wrth gwrs, mae e'n gallu bod yn boen pan mae pobl eisiau eich llofnod pan rydych chi allan yn mwynhau gyda ffrindiau. Ond ar y cyfan mae llawer iawn o'r celebs yn gwneud gwaith da yn helpu pobl llai ffodus yn y byd.

Rydw i'n mwynhau gwaith ar y teledu a radio'n fawr iawn. Mwynheuais i'r rhaglen Rygbi 100% gyda Sarra Elgan ac mae'r rhaglen ysgafn Jonathan yn llawer iawn o hwyl. Rydw i hefyd wrth fy modd yn cyflwyno rhaglenni radio yn fyw yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mwynheuais i grwydro o gwmpas y wlad yn y rhaglen Out In Wales a siarad â phobl yn y rhaglenni Cymraeg. Pan dw i'n gwylio'r teledu rydw i'n mwynhau llawer o wahanol raglenni ond mae'n gas gyda fi raglenni realiti fel Big Brother - dw i'n meddwl eu bod nhw'n sbwriel.

Yn y dyfodol hoffwn i ddal ati i ddyfarnu gemau rygbi dros y byd. Wedyn ar ôl rhoi gorau i ddyfarnu efallai cyflwyno a sylwebu ar y teledu a'r radio a helpu pobl ifanc sy eisiau dyfarnu gemau rygbi.

www.xtrapapers.com

(i) Ysgrifennwch yr atebion canlynol mewn brawddegau yn y **3ydd** person yn Gymraeg.
Write the following answers in sentences in the **3rd** person in Welsh.

Ysgrifennwch 4 ffaith am fywyd Nigel cyn dod yn ddyfarnwr rygbi.
Write 4 facts about Nigel's life before becoming a rugby referee. (4)

- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………

Rhowch 2 ffaith am ei yrfa fel dyfarnwr.

Give 2 facts about his career as a referee. (4)

- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………

Rhowch 4 ffaith am ei waith ar y teledu a radio.

Give 4 facts about his work on the television and radio. (8)

- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………
- ……………………………………………………………………………

www.xtrapapers.com

(ii) (a) Ydych chi'n cytuno neu anghytuno â beth mae Nigel yn ei ddweud am fod yn enwog? Rhowch resymau am eich ateb. [✓=2]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(b) Ydych chi'n cytuno neu anghytuno â beth mae Nigel yn ei ddweud am raglenni realiti.? Rhowch resymau. [✓=2]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

www.xtrapapers.com

**4.** Ysgrifennwch erthygl yn Gymraeg ar gyfer y cylchgrawn "Lingo" yn rhoi eich barn ar un o'r pynciau canlynol. Cofiwch roi rhesymau da i gefnogi eich barn. **[30]**

Write an article in Welsh for the magazine "Lingo" giving your opinion on one of the following topics. Remember to give good reasons to support your opinion.

**Naill ei/Either**:
Mae llawer mwy i fywyd ysgol na gwaith ac astudio
There is a lot more to school than work and studying.

**Neu/Or**:
Mae pobl ifanc yn treulio gormod o amser ar y cyfrifiadur neu ar ffonau symudol.
Young people spend too much time on the computer or on their mobile phones.

**Neu/or:**
Mae pwysau ar bobl ifanc i yfed alcohol, ysmygu a chymryd cyffuriau.
There is pressure on young people to drink alcohol, smoke and take drugs.